SM**E-nvironment** 2005: Cymru

Arolwg o agweddau ac ymddygiadau amgylcheddol sy'n newid ymysg busnesau bach a chanolig eu maint yng Nghymru

Gwnaed arolwg SME-nvironment 2005 ar gyfer NetRegs, gwefan unigryw sy'n cyfarwyddo mentrau bach a chanolig (SMEs) drwy eu rhwymedigaethau amgylcheddol. Mae'r safle sy'n rhad ac am ddim – **www.netregs.gov.uk** - yn cynnwys cyngor penodol i fwy na 100 o sectorau diwydiant a chanllawiau rheoli cyffredinol sy'n berthnasol i'r rhan fwyaf o fusnesau. Mae NetRegs yn cael ei redeg gan Asiantaeth yr Amgylchedd, mewn partneriaeth gydag Asiantaeth Gwarchod yr Amgylchedd yr Alban a Gwasanaeth yr Amgylchedd a Threftadaeth yng Ngogledd Iwerddon.

RHAGARWEINIAD

Mae pwysau cynyddol ar fusnesau o bob maint i wella eu perfformiad amgylcheddol, o ganlyniad i bwysau cynyddol gan gwsmeriaid, deddfwriaeth sy'n newid a chostau cynyddol gwaredu gwastraff. Mae llawer o fusnesau yn dechrau cymryd y camau sy'n angenrheidiol i gwtogi ar eu heffaith amgylcheddol ond nid yw cyfran sylweddol o fusnesau bach a chanolig wedi gweithredu o gwbl hyd yma. Mae hyn yn bryder o ystyried eu bod yn ffurfio mwy na 99% o fusnesau ac yr amcangyfrifir eu bod yn cynhyrchu cymaint â 60% o wastraff masnachol ac 80% o ddigwyddiadau o lygredd yng Nghymru a Lloegr.

Yn 2003, cynhaliodd NetRegs arolwg o 8,604 o SMEs ar draws y DG i ddatgelu eu hagweddau a'u hymddygiadau amgylcheddol. Ddwy flynedd yn ddiweddarach, gwnaed arolwg SME-nvironment 2005 i weld pa newidiadau a wnaed. Roedd yr arolwg, a wnaed gan Atkins ar ran NetRegs, yn cynnwys cyfweliadau ffôn gyda 5,554 o SMEs ar draws y DG, gan gynnwys 1,237 o fusnesau a leolir yng Nghymru.

Cynrychiolir pymtheg o sectorau busnes yn yr arolwg: Amaethyddiaeth; Adeiladu; Cynhyrchu Offer a Pheiriannau Trydanol; Cynhyrchion Metel wedi eu Ffabrigeiddio; Gweithgynhyrchu Bwyd a Diod; Gwestai a Bwytai; Gweithgynhyrchu Peiriannau; Mwyngloddio a Chwarela; Cynhyrchu Cynhyrchion Mwynol Anfetelaidd; Argraffu a Chyhoeddi; Ailgylchu; Carthffosiaeth; Gwastraff a Glanhau; Tecstiliau a Dillad; Cludiant ar Dir; a Choed a Chynhyrchion Coed.

DARGANFYDDIADAU ALLWEDDOL

- Yn gyffredinol, roedd 63% o fusnesau yng Nghymru wedi gweithredu o leiaf un mesur ymarferol i gwtogi ar eu heffaith amgylcheddol. Ailgylchu gwastraff oedd y mesur mwyaf cyffredin – a grybwyllwyd gan hanner y busnesau y gofynnwyd iddynt.
- Dim ond 8% o fusnesau Cymru oedd yn credu eu bod yn cyflawni gweithgareddau a allai achosi difrod i'r amgylchedd. Mae hyn yn welliant sylweddol ar y 2% a gredai felly yn 2003, ond mae'n dal yn bryderus o isel o ystyried bod 41% o fusnesau yn cyfaddef eu bod wedi cyflawni o leiaf un gweithgaredd a allai fod yn niweidiol pan gyflwynwyd rhestr iddynt.
- Mae'n galondid fod dros ddeuparth (67%) o fusnesau Cymreig a oedd wedi cymryd rhyw gamau amgylcheddol wedi cael eu hysgogi gan bryder cyffredinol dros yr amgylchedd. Sbardunau allweddol eraill i sicrhau newid oedd yr angen i gydymffurfio â deddfwriaeth (19%) a'r angen i gwtogi ar gostau (10%).

GWEITHGAREDDAU SY'N NIWEIDIOL I'R AMGYLCHEDD

Ychydig iawn o'r busnesau Cymreig a arolygwyd (8%) a gredai fod gan eu gweithgareddau botensial i greu unrhyw effaith ar yr amgylchedd. Ond mae hyn wedi cynyddu bedair gwaith ers 2003 pan oedd dim ond 2% o fusnesau yn cydnabod eu bod yn cyflawni gweithgareddau a allai achosi niwed i'r amgylchedd.

Pan gyflwynwyd rhestr o weithgareddau a allai fod yn niweidiol i'r amgylchedd iddynt, dywedodd 41% o fusnesau Cymreig a arolygwyd yn 2005 eu bod yn cyflawni o leiaf un ohonynt. Mae hyn yr un fath â'r cyfartaledd ar gyfer y DU. Y gweithgareddau mwyaf cyffredin a gyflawnid gan fusnesau yng Nghymru oedd storio cemegau, tanwydd neu olew (51%), storio gwastraff (26%) a chynhyrchu neu fewnforio deunydd pecynnu (24%). O blith y busnesau hynny a oedd yn storio cemegau, tanwydd neu olew, dim ond 19% oedd erioed wedi gosod bwnd o amgylch tanc olew neu storfa gemegol i atal cemegau neu olew niweidiol rhag colli neu gael eu harllwys.

Ffigur 1 – Gweithgareddau a allai fod yn niweidiol a gyflawnwyd gan fusnesau yng Nghymru (o restr a gyflwynwyd)



N=533 Sail: Yr holl ymatebwyr sy'n cyflawni o leiaf un gweithgaredd a allai fod yn weithgaredd niweidiol. (Caniateir ymatebion lluosog).

Ffigur 2 – Mesurau amgylcheddol ymarferol a gyflawnwyd gan fusnesau yng Nghymru



N=1,237 Sail: Yr ymatebwyr i gyd (Caniateir ymatebion lluosog)

CWTOGI AR EFFAITH AMGYLCHEDDOL

Credai llai na thraean (29%) o fusnesau Cymreig a arolygwyd yn 2005 nad oeddent wedi cyflwyno unrhyw fesurau ymarferol i gwtogi ar eu heffaith amgylcheddol pan ofynnwyd iddynt yn gyntaf (o'i gymharu â 23% yn 2003). Ond daeth y darlun ychydig yn fwy cadarnhaol pan roddwyd rhestr o fesurau i wella'r amgylchedd i'r busnesau a phan ofynnwyd iddynt a oeddent wedi cyflawni unrhyw rai o'r gweithgareddau hyn. Yn gyffredinol, roedd 63% o fusnesau yng Nghymru wedi gweithredu o leiaf un mesur ymarferol i gwtogi ar eu heffaith amgylcheddol. Ailgylchu gwastraff oedd y mesur mwyaf cyffredin – a grybwyllwyd gan 50% o fusnesau. Dim ond 16% o ymatebwyr oedd wedi rhoi cyfrifoldeb i aelod staff am faterion amgylcheddol, tra roedd 15% wedi cyflwyno mesurau i ddefnyddio egni yn effeithiol neu gwtogi ar ddŵr ac roedd 12% wedi gweithredu rhaglen o welliannau amgylcheddol. Roedd 11% o fusnesau Cymreig yn ymwneud â fforwm busnes oedd yn trafod materion amgylcheddol.

POLISI AMGYLCHEDDOL A SYSTEMAU RHEOLI AMGYLCHEDDOL (EMS)

Mae datblygu polisi amgylcheddol yn gam cyntaf pwysig tuag at gwtogi ar effaith amgylcheddol. Roedd gan bron i chwarter (23%) o'r busnesau Cymreig y gofynnwyd iddynt bolisi amgylcheddol, cynnydd o ddim ond 1% ers 2003.

Mae System Rheoli Amgylcheddol yn nodi ac yn mesur yr effaith amgylcheddol a gaiff busnes ac yn cyflwyno agwedd wedi ei strwythuro ar gyfer gwelliant parhaus. Roedd gan 6% o fusnesau Cymreig a arolygwyd yn 2005 EMS yn ei le, o'i gymharu â dim ond 1% yn 2003, ond dim ond 1% arall oedd yn bwriadu cyflwyno un yn y dyfodol.

YMWYBYDDIAETH O RWYMEDIGAETHAU CYFREITHIOL

Canfu arolwg 2005 fod lefel isel o ymwybyddiaeth ddeddfwriaethol ymysg busnesau yng Nghymru yn gyffredinol o hyd, gyda dim ond 13% yn gallu enwi unrhyw ddeddfwriaeth amgylcheddol heb gael eu cynorthwyo. (Y Rheoliadau Trwyddedu Rheoli Gwastraff oedd yn cael eu crybwyll amlaf).

Ond pan roddid rhestr iddynt o wyth darn o ddeddfwriaeth ac y gofynnid iddynt a oeddent wedi clywed amdanynt, roedd 65% o fusnesau Cymreig yn gyfarwydd ag o leiaf un. Y Rheoliadau Trwyddedu Rheoli Gwastraff a'r Rheoliadau Atal a Rheoli Llygredd oedd fwyaf adnabyddus, a oedd yn gyfarwydd i 39% a 33% o ymatebwyr yn y drefn honno.

Tabl 1 – Lefel ymwybyddiaeth ynghylch deddfwriaeth (pan gyflwynid rhestr)

Deddfwriaeth	% yr ymatebwyr
Rheoliadau Trwyddedu Rheoli Gwastraff	39
Rheoliadau Atal a Rheoli Llygredd	33
Rheoliadau Dyletswydd o Ofal	32
Rheoliadau Gwastraff Peryglus Drafft	28
Deddf Adnoddau Dŵr 1991	24
Rheoliadau Gwastraff Deunydd Pecynnu	22
Rheoliadau Cerbydau Diwedd Oes 2003	18
Cyfarwyddeb Cyfrifoldeb Amgylcheddol 2004	12

N=1,237 Sail: Yr ymatebwyr i gyd (Caniateir ymateb lluosog)

RHESYMAU AM WNEUD GWELLIANNAU AMGYLCHEDDOL

Mae'n gred gyffredin y bydd busnesau yn gwneud gwelliannau amgylcheddol dim ond os gallant weld budd masnachol. Ond dywedodd dros ddeuparth (67%) o'r busnesau Cymreig a arolygwyd a oedd wedi gweithredu mewn rhyw fodd i ymdrin â'u perfformiad amgylcheddol eu bod yn gwneud hynny oherwydd pryder cyffredinol am yr amgylchedd, o'i gymharu â dim ond 43% yn 2003. Roedd llawer llai o fusnesau oedd yn actif o safbwynt amgylcheddol yn cael eu sbarduno gan yr angen i gydymffurfio â deddfwriaeth (19%) neu i gwtogi ar gostau (10%).

MANTEISION YMDRIN Â MATERION AMGYLCHEDDOL

Ystyria busnesau yng Nghymru mai prif fantais ymdrin â materion amgylcheddol yw llai o berygl o erlyniad – cytunai 82% o'r ymatebwyr fod hyn yn fantais o'i gymharu â dim ond 67% yn 2003. Cytunai tri chwarter (76%) y gallai cwtogi effaith amgylcheddol helpu i ddatblygu cysylltiadau da â chwsmeriaid (cynnydd o 20% ers 2003), credai 64% y gallai gwtogi ar gostau gweithredu a 55% y gallai eu gwneud yn fwy cystadleuol. Roedd mwyafrif y busnesau yn dal heb gael eu hargyhoeddi y gallai gwneud gwelliannau amgylcheddol helpu i ysgogi'r gweithlu neu gynyddu gwerthiannau.

Ffigur 3 – Manteision tybiedig i fusnes yn deillio o arfer amgylcheddol da



N=1,237 Sail: Yr ymatebwyr i gyd

CYNGOR AR FATERION AMGYLCHEDDOL

Mae busnesau yng Nghymru yn dal yn fwyaf tebygol o gysylltu â'u hawdurdod lleol am ganllawiau ynglŷn â materion amgylcheddol – byddai 62% o ymatebwyr yn gofyn i'w cyngor am gymorth o'i gymharu â 50% a fyddai'n gofyn i'w cwmni gwastraff a 40% a fyddai'n gofyn i Asiantaeth yr Amgylchedd.

Credai 39% o fusnesau Cymreig y gofynnwyd iddynt eu bod yn derbyn digon o gefnogaeth oddi wrth y Llywodraeth a'i hasiantaethau i ymdrin â materion amgylcheddol, ond dywedodd bron i hanner (48%) o fusnesau fod arnynt angen mwy o gymorth.

CASGLIADAU

Yn gyffredinol, mae ymwybyddiaeth amgylcheddol a pherfformiad busnesau bach a chanolig yng Nghymru wedi gwella rhwng 2003 a 2005 ac mae'n galonogol fod 63% o'r busnesau a arolygwyd wedi gweithredu o leiaf un mesur amgylcheddol ymarferol. Mae pethau'n bendant yn symud i'r cyfeiriad iawn, er nad yw hyn mor gyflym ag y gallai fod.

Mae bwlch sylweddol yn amlwg o hyd sydd angen ei drin yn nhermau cael busnesau i gydnabod eu heffaith amgylcheddol eu hunain. Os nad yw busnesau yn meddwl bod eu hymddygiad yn gwneud unrhyw wahaniaeth yna nid ydynt yn debygol o'i newid. Gall hyn hefyd egluro i ryw raddau pam fod cymaint o'r busnesau a arolygwyd yn rhai sy'n dweud nad ydynt yn ymwybodol o'r ddeddfwriaeth amgylcheddol sy'n effeithio ar eu gweithgareddau.

Yn ddiddorol, dywedodd mwyafrif y busnesau a arolygwyd a oedd wedi cymryd camau cadarnhaol eu bod wedi gwneud hynny oherwydd pryder cyffredinol dros yr amgylchedd yn hytrach nag i gydymffurfio â deddfwriaeth neu gwtogi ar gostau. Ond i wneud mwy, mae'n ymddangos yn debygol fod angen i fusnesau gael eu hysgogi yn fwy uniongyrchol gan fanteision masnachol. Mae'n bwysig felly argyhoeddi mwy o fusnesau y gall gwneud gwelliannau amgylcheddol helpu i gynyddu gwerthiannau, eu gwneud yn fwy cystadleuol ac ysgogi staff.

Mae angen gwybodaeth gyson o ystod o ffynonellau, ynghyd â chefnogaeth mwy effeithiol oddi wrth y llywodraeth a mwy o bwysau ar y gadwyn gyflewni i berswadio busnesau ynghylch manteision ymdrin â materion amgylcheddol a'u helpu i ddechrau gwneud newidiadau drwy eu busnes. Mae gwefan NetRegs **(www.netregs.gov.uk)** - sy'n cynnig canllawiau clir i fusnesau bychain ynglŷn â'u rhwymedigaethau amgylcheddol a chyngor ynglŷn ag arfer da – yn fan cychwyn synhwyrol i fusnesau gydag amser ac adnoddau cyfyngedig sy'n dymuno gwella eu perfformiad amgylcheddol.

Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Environment Agency Wales

Environment & Heritage Service
www.ehsni.gov.uk

SEPA
Scottish Environment Protection Agency

Printiwyd ar bapur a ailgylchwyd